

Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)



Swyddog Cyswllt:
Maureen Potter 01352 702322

At: Cyng Rosetta Dolphin (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Chris Dolphin, David Evans, George Hardcastle,
Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Vicky Perfect,
Paul Shotton and Owen Thomas

Dydd Iau, 6 Mai 2021

Annwyl Gynghorydd,

RHYBUDD O GYFARFOD ANGHYSBELL
PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI
DYDD MERCHER, 12FED MAI, 2021 10.00 AM

Yn gywir

Robert Robins
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Sylwch: Bydd hwn yn gyfarfod dros y we a bydd 'presenoldeb' wedi'i gyfyngu i Aelodau'r Pwyllgor a'r Aelodau hynny o'r Cyngor sydd wedi gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd am wahoddiad. Y Cadeirydd fydd yn penderfynu a yw'r rhain yn cael siarad ai peidio.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar <https://flintshire.publici.tv/core/portal/home>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

Pwrpas: I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Pwrpas: I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

3 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED (Tudalennau 5 - 12)

Adroddiad Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd -

I Ystyried y flaenraglen waith Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi a rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor o'r cynnydd yn erbyn camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.

4 ADFYWIO CANOL TREFI (Tudalennau 13 - 20)

Adroddiad Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi) - Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar yr heriau sy'n wynebu canol trefi ac i nodi ymatebion rhanbarthol a lleol sy'n cael eu gweithredu.

5 MYNEDIAD AT BERFFORMIAD TÎM 2019/20 A 2020/21 (Tudalennau 21 - 30)

Adroddiad Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi) - Aelod Cabinet Datblygu Economaidd

Rhoi gwybod i aelodau o'r Tîm Mynediad dros y ddwy flynedd ddiwethaf a thynnu sylw at eu perfformiad wrth reoli a chynnal y rhwydwaith a datblygu cyfleoedd mynediad at iechyd a lles a hamdden awyr agored.

6 DIWEDDARIAD AROLWG CLEFYD COED YNN (Tudalennau 31 - 58)

Derbyn adroddiad ar gynnydd

7 **CYNLLUN RHEOLI ASED AU PRIFFYRDD** (Tudalennau 59 - 74)

Adroddiad Prif Swyddog (Stryd a Chludiant) - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Strydlun a Chefn Gwlad

Cael y wybodaeth ddiweddaraf am sut mae Cyngor Sir y Fflint yn rheoli gwaith cynnal a chadw eu priffyrdd er mwyn bodloni eu rhwymedigaethau statudol.

8 **PROSES YMGYNGHORI TEITHIO LLESOL** (Tudalennau 75 - 80)

Adroddiad Prif Swyddog (Stryd a Chludiant) - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Strydlun a Chefn Gwlad

Hysbysu Craffu o'r ymgynghoriad cyhoeddus sydd ar y gweill ar ddyheadau Teithio Llesol y Cyngor

Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw'r cyfarfod yn para'n hirach na dwy awr.

Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddarau'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chat'. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i'r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar <https://flintshire.publici.tv/core/portal/home>